

# Hysbysiad Preifatrwydd - Datganiad Prosesau Data - Data Gweithwyr

1. Mae Prifysgol Aberystwyth yn rheolwr data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn ogystal â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol sydd i'w weithredu ym Mai 2018.

2. Y cynrychiolydd a enwebwyd gan y Brifysgol yw:

*Y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)  
Swyddfa'r Is-Ganghellor  
Y Ganolfan Ddelweddu  
Campws Penglais  
Prifysgol Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3BF*

3. Rhaid i'r Brifysgol brosesu gwybodaeth bersonol am staff er mwyn:

- (i) ymgymryd â gweinyddiaeth darpar weithwyr, gweithwyr cyfredol a chyn-weithwyr yn cynnwys staff hunangyflogedig, staff dan gontract, staff dros dro neu weithwyr gwirfoddol;*
- (ii) gweinyddu prosesau recriwtio a dethol;*
- (iii) ymgymryd â gweinyddiaeth staff o'r tu allan i'r Brifysgol sydd dan gontract i ddarparu gwasanaethau ar ran y Brifysgol;*
- (iv) cynllunio a rheoli llwyth gwaith neu weithgarwch busnes y Brifysgol;*
- (v) darparu gwasanaeth iechyd galwedigaethol;*
- (vi) ymgymryd â gweinyddiaeth asiantwyr neu gyfryngwyr eraill;*
- (vii) rheoli gweinyddiaeth pensiynau;*
- (viii) rheoli gwaith gydag unigolion yn cynnwys materion disgyblaethol, anghydfodau staff, tribiwnlysoedd cyflogaeth;*
- (ix) trefnu hyfforddiant a datblygiad staff;*
- (x) sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi'n briodol yn eu swyddi;*
- (xi) cynnal gwiriadau fetio;*
- (xii) asesu perfformiad y Brifysgol yn ôl yr amcanion cydraddoldeb a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.*

4. Gellir diffinio peth o'r wybodaeth a ddiffinnir yn sensitif o dan y Ddeddf Diogelu Data (neu'n 'gategoriâu arbennig' o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol), hynny yw,

*tarddiad hiliol neu ethnig;  
barn wleidyddol;  
cred grefyddol neu gredoau eraill o natur debyg;  
aelodaeth o undeb llafur;  
iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol;  
bywyd rhywiol;  
geneteg; a  
hunaniaeth unigryw yn ôl yr hyn a brosesir drwy ddata biometrig.*

5. Caiff data personol staff ei brosesu oherwydd ei fod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r contract rhwng aelodau staff a'r Brifysgol neu er mwyn cymryd camau i ymrwymo i'r contract hwnnw (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 6 (1) (b)). Caiff peth o'r data hwn ei brosesu hefyd oherwydd rhwymedigaethau cyfreithiol penodol fel y rhai a fyddir gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a'r gofynion ar gyfer adrodd wrth i) Fisâu a Mewnfudo'r DU a ii) yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 6 (1) (c)). Gall fod amgylchiadau eraill lle gofynnir ichi am ragor o wybodaeth, fel manylion

yswiriant ar gyfer trefniadau teithio neu yrru ar gyfer busnes y Brifysgol. Yn yr achosion hyn, bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu yn unol â buddiannau cyfreithlon y Brifysgol fel rheolwr data.

6. Cedwir peth gwybodaeth ar ôl eich cyfnod cyflogaeth fel aelod staff yn unol â gofynion cyfreithiol a hefyd er mwyn parhau i weinyddu pensiynau. Gall fod amgylchiadau lle bydd angen i'r Brifysgol gysylltu â staff ar ôl iddynt adael ynglŷn â'r materion hyn.

7. Bydd manylion cyswllt staff fel arfer ar gael yn gyhoeddus drwy Gyfeiriadur y Brifysgol. Bydd hyn yn cynnwys enw, teitl swydd, adran, cyfeiriad gwaith, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn. Gellir gwneud cais i hepgor rhai manylion dan rai amgylchiadau. Mae'n bosibl y bydd rhagor o wybodaeth, megis CVs, ffotograffau a diddordebau ymchwil, hefyd i'w gweld ar wefannau adrannau/athrofeydd, lle bo'n berthnasol, er mwyn hybu gwaith y Brifysgol a gwaith aelodau'r staff academiaidd. Gall hyn ddigwydd yn awtomatig yn achos aelodau staff academiaidd er mwyn ei gwneud yn hwylus i fyfyrwyr a phobl allanol gysylltu â nhw, ond dim ond gyda chaniatâd aelod staff y dylai hyn ddigwydd yn achos aelodau staff anacademaidd (ac eithrio staff mewn swyddi rheng flaen fel y disgrifir isod). Gellir hefyd rannu manylion cyswllt a gwybodaeth am feysydd ymchwil staff sy'n cyflawni gwaith ymchwil ar amrywiaeth o lwyfannau, a bydd rhai o'r rhain yn cael eu darparu gan drydydd partïon.

8. Gall fod disgwyl i staff sy'n gweithio gyda chwsmeriaid neu mewn swyddi rheng flaen wisgo bathodynau enw fel sy'n briodol, ac mae'n bosibl y bydd eu henwau yn ymddangos ar dderbynebau tiliau talu yn ogystal. Mae'n bosibl y bydd enwau a ffotograffau hefyd yn cael eu rhoi ar hysbysfyrdau.

9. Bydd data personol cyffredin (e.e. data cysylltu, presenoldeb a gwybodaeth am daliadau) sy'n ymwneud â staff fel arfer ar gael i'r staff sy'n gweithio yn Adnoddau Dynol ac i reolwyr llinell, uwch-reolwyr a gweinyddwyr yn yr adran berthnasol. Dim ond yn fewnol mewn amgylchiadau mwy cyfyngedig y bydd data personol sensitif yn cael ei rannu, er enghraifft os oes angen neu rwymedigaeth gyfreithlon, fel manylion anabledd. Gall data sensitif hefyd gael ei rannu ag unigolion sydd dan gontract i ddarparu cefnogaeth i staff, fel meddyg galwedigaethol. Ar gyfer prosesau apêl, gall staff hŷn y Brifysgol ac aelodau'r Cyngor gael mynediad at ddata personol, yn cynnwys categorïau sensitif o ddata.

10. Microsoft sy'n darparu gwasanaeth e-bost a chalendr y Brifysgol. Mae cynnwys cyfrifon e-bost a chalendr felly yn cael eu dal gan y trydydd parti hwn yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae gan y Brifysgol gontract ysgrifenedig i sicrhau diogelwch data personol sy'n eiddo i'r Brifysgol.

11. Mae'r Brifysgol yn gweithredu system deledu cylch cyfyng (CCTV) ar ei safleoedd, a phwrpas hyn yw creu amgylchedd mwy diogel i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr â'r Brifysgol. Oherwydd natur y system, mae'n debygol y bydd lluniau o staff yn cael eu tynnu yn rheolaidd. Mae'r teledu cylch cyfyng yn gyfyngedig i 'ardaloedd cyhoeddus', lleoliadau a ddefnyddir yn rheolaidd gan staff a myfyrwyr a ffyrdd agored ac nid yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer monitro staff fel arfer. Ni chaiff lluniau eu defnyddio ac eithrio mewn amgylchiadau na ellir eu hanwybyddu'n rhesymol gan y Brifysgol, er enghraifft os oes risg o drosedd, neu drosedd yn digwydd, lle ceir achos honedig o gamymddwyn difrifol neu lle gall ymddygiad staff roi eraill mewn perygl. Lle defnyddir lluniau mewn gweithdrefnau disgyblu bydd gan yr aelod unigol o staff fynediad at y lluniau perthnasol ar y teledu cylch cyfyng.

12. Bydd y Brifysgol yn rhyddhau data personol yn statudol ac fel mater o drefn i drydydd partïon lle bo'n briodol. Ymhlith y trydydd partïon hyn y mae:

(i) Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) I gael manylion, gweler: <https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices> a <https://www.aber.ac.uk/en/hr/policy-and-procedure/hesa/>

- (ii) Fisâu a Mewnfudo y DU
- (iii) Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)
- (iv) Cynlluniau pensiwn – yn cynnwys USS ac eraill (yn unol â'r hyn a nodir yn rheolau'r cynllun)
- (v) Noddwyr ymchwil, cyrff cyllido ac asiantaethau dan contract sy'n gweithio ar ran y cyrff hyn
- (vi) Undebau llafur
- (vii) Cyflogwyr posibl (lle gofynnir am eirida)
- (viii) Yr Asiantaeth Budd-daliadau fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992
- (ix) Yr Asiantaeth Cynnal Plant/Gwasanaeth Cynnal Plant fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Gwybodaeth Cynnal Plant 2008 (rhif 2551)
- (x) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- (xi) Archwilwyr, yswirwyr a chyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol
- (xii) Cyrff proffesiynol (e.e. Cymdeithas y Gyfraith) – lle bydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer achredu cyrsiau a/neu gyflawni dyletswyddau dan contract
- (xii) Sefydliadau eraill y mae'r Brifysgol yn cydweithredu â hwy ar brosiectau ymchwil

13. Gellir rhyddhau data personol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 lle nad yw gwneud hynny yn torri deddfwriaeth diogelu data

14. Gellir hefyd ddatgelu data personol os yw'r gyfraith yn mynnu hynny, neu os oes buddiant cyfreithlon, neu os yw'r heddlu neu'r gwasanaethau diogelwch yn gofyn inni wneud hynny, yn cynnwys o dan y dyletswyddau 'Rhwystro' sy'n ofynnol gan y Brifysgol o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

15. Mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn defnyddio cwmnïoedd trydydd parti yn broseswyr data i gyflawni rhai swyddogaethau gweinyddol ar ran y Brifysgol. Lle bydd hyn yn digwydd, gweithredir contract ysgrifenedig er mwyn sicrhau y bydd unrhyw ddata personol a ddatgelir i'r cwmni trydydd parti hwn yn cael ei gadw yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Gall rhai o'r prosesau hyn (e.e. trefnu ac archebu teithiau) olygu bod staff yn darparu data personol yn uniongyrchol i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti.

16. Ni fydd y Brifysgol fel arfer yn rhannu eich data personol â thrydydd parti on y tu allan i'r UE oni bai eich bod wedi rhoi eich caniatâd. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau lle bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu heb ganiatâd. Bydd hyn ond yn digwydd yn yr achosion canlynol:

- (i) Os yw'r UE wedi dod i'r casgliad fod gan y drydedd wlad lefel ddiogelu ddigonol
- (ii) Os yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu â chwmni yn UDA sydd wedi cofrestru ar gyfer egwyddorion y Darian Breifatrwydd (*Privacy Shield*)
- (iii) Os yw'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn eich buddiannau hanfodol; er enghraifft mewn sefyllfaoedd o argyfwng meddygol
- (iv) Os yw'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract rhyngoch chi a'r Brifysgol
- (v) Os yw'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau cyngor cyfreithiol neu ar gyfer achosion cyfreithiol

17. O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, mae gan unigolion hawl i gael copi o wybodaeth personol a gedwir amdanynt gan y Brifysgol a hawl i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi niwed a gofid sylweddol

a di-alw-amdano. Rhaid nodi, er bod hawl gwrthwynebu, mewn rhai amgylchiadau y bydd yn rhaid i'r Brifysgol ddal gwybodaeth benodol er mwyn cyflawni ei busnes cyfreithiol ac i gydymffurfio â gofynion penodol y Ddeddf Diogelu Data neu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. I drafod unrhyw wrthwynebiad neu bryder, dylai unigolion gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data trwy anfon e-bost i'r cyfeiriad isod.

18. Mae'r Brifysgol yn cadw data personol (yn cynnwys data sy'n ymwneud â staff) yn unol â'i rhestrau cadw cofnodion sefydledig ac â'r rhestrau cadw cofnodion enghreifftiol a sefydlwyd gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth.

19. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch hawliau gwrthrychau data yma: <https://www.aber.ac.uk/en/infocompliance/policies/dp/data-subject-rights/> ac mae rhagor o wybodaeth ar gael o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (<https://ico.org.uk/>). Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â phrosesu data personol staff yn y Brifysgol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data (gweler isod)